| Y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant | |
|---|---|
| **Adolygiad cyflym o farwolaethau plant oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn** | |
| **Awduron:** Dr Ciarán Humphreys, Dr Lorna Price, Beverley Heatman (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Bridgette Ruggiero (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) **Cydnabyddiaeth:** Diolch yn fawr iawn i Dr Emily Blackwell, Prifysgol Bryste, am ei chyngor arbenigol ar ymddygiad cŵn; i Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru am gymorth i chwilio am dystiolaeth a gweld data derbyniadau i ysbyty ac i Irene Allen, Llywodraeth Cymru, am ddarparu cyngor ar y cyd-destun polisi yng Nghymru. | |
| **Dyddiad:** 04 Medi 2014 | **Fersiwn:** 1 (terfynol) |
| **Cyhoeddi / Dosbarthu:** Llywodraeth Cymru; Cyhoeddus (Rhyngrwyd) | |
| **Pwrpas a chrynodeb y ddogfen:** Mae'r adolygiad cyflym hwn o farwolaethau plant oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd i adnabod cyfleoedd atal a dynodi gwaith pellach a allai fod yn ddefnyddiol. Mae cŵn yn gydymaith gwerthfawr i lawer o deuluoedd. Mae eu cymdeithasoli'n gynnar â phlant ac eraill yn bwysig ar gyfer cŵn teulu. Er mai prin yw'r achosion o farwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan | |

gŵn, maent yn achos pwysig o farwolaethau ac anafiadau i blant, y gellid eu hatal. Mae plant ifanc yn arbennig o agored i niwed drwy hyn.

Casgliad allweddol yw mai'r cyngor pwysicaf i'r cyhoedd yw *peidiwch byth â gadael babi neu blentyn ifanc gyda chi heb oruchwyliaeth, hyd yn oed am eiliad, waeth pa mor dda rydych chi'n adnabod y ci.*

Nodir cyfleoedd atal a gwaith pellach arfaethedig.

# Cynnwys

**1 Cefndir ........ 3**

**2 Pwrpas yr adolygiad ........ 3**

**3 Dulliau a'r wybodaeth a ystyriwyd ........ 4**

**4 Casgliadau ........ 4**

**5 Cyfleoedd atal ........ 6**

**Cyfeiriadau ........ 8**

**Atodiad 1 Derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yng Nghymru ........ 9**

**Atodiad 2 Tystiolaeth o lenyddiaeth gyhoeddedig ........ 14**

**Atodiad 3 Enghreifftiau o wybodaeth i'r cyhoedd yng nghyswllt diogelwch cŵn a phlant ........ 20**

(h) 2014 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Caniateir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw cyn belled ag y gwneir hynny yn gywir ac na ddefnyddir y deunydd mewn cyd-destun camarweiniol.
Rhaid rhoi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae hawlfraint y trefniant typograffeg, dyluniad a'r gosod yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# 1 Cefndir

Mae cŵn yn rhan bwysig o fywyd teuluol ac yn gydymaith gwerthfawr i lawer o deuluoedd ledled Cymru. Mae marwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gi yn brin, fodd bynnag mae eu natur a'r amgylchiadau lle mae hyn yn digwydd yn arwain at sylw eang yn y wasg a'r cyfryngau. Efallai bod y niwed yn deillio o frathu neu ymosodiad gan gŵn ar blant sy'n goroesi yn denu llai o sylw'r wasg, ond mae'n cynrychioli achos morbidrwydd pwysig y gellid ei atal.

Sefydlwyd y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yng Nghymru â'r nod o adnabod, nodi a disgrifio patrymau ac achosion marwolaethau plant, yn cynnwys unrhyw dueddiadau, ac argymell gweithredoedd i leihau'r risg o ffactorau y gellid eu hosgoi yn arwain at farwolaethau plant yng Nghymru. Noddwyd y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac erbyn hyn mae wedi adolygu marwolaethau pobl ifanc yn eu harddegau mewn cerbydau modur (Jones, Heatman, & Humphreys, 2013) a marwolaethau drwy hunanladdiad tebygol (John et al, 2014).

Mae marwolaethau plant yn gymharol brin. Mewn rhai achosion marwolaethau plant ni fydd niferoedd digonol o farwolaethau i gynnal proses adolygiad llawn. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd atal pwysig.

Mae'r gwaith hwn wedi peilota'r dull adolygiad cyflym. Bwriad y broses yw darparu mecanwaith ar gyfer deall cyfleoedd i atal marwolaethau lle nad yw adolygiad thematig llawn yn briodol. Mae hyn yn cynnwys asesiad cyflym o'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn llunio casgliadau neu nodi meysydd ar gyfer gwaith pellach. Mae'r dull hwn yn cael ei ystyried ar gyfer (a) ymateb i bryderon penodol a godwyd lle mae'n ofynnol cael ymateb mwy amserol nag adolygiad llawn a (b) lle gallai'r lefelau gwybodaeth sydd ar gael fod yn is, heb lawer neu ddim marwolaethau wedi eu cofnodi yng Nghymru.

# 2 Pwrpas yr adolygiad

Nod yr adolygiad hwn oedd ystyried gwybodaeth a oedd ar gael yn hawdd ar farwolaethau plant oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn a allai hysbysu a dylanwadu ar weithgareddau i atal marwolaethau yn y dyfodol neu adnabod gwaith pellach a allai fod yn fuddiol.

Yr adolygiad hwn yw'r adolygiad cyflym cyntaf a gynhaliwyd gan y rhaglen. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad hwn wedi ei gofnodi i hysbysu adolygiadau yn y dyfodol.

# 3 Dulliau a'r wybodaeth a ystyriwyd

Cyfarfu panel bach i drafod yr wybodaeth berthnasol a gasglwyd, yn cynnwys:

- Gwybodaeth am saith marwolaeth yng Nghymru a Lloegr fel a ddisgrifiwyd mewn adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau am y digwyddiadau, yn cynnwys y rhai a gasglwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Anifeiliaid (RSPCA) (2011)
- Ymateb crwneriaid i unrhyw argymhellion a wnaed yng nghyswllt achosion yng Nghymru
- Dadansoddiad o dderbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn ar blant (gweler Atodiad 1)
- Tystiolaeth a nodwyd drwy adolygiad cryno o lenyddiaeth gyhoeddedig, wedi ei adolygu gan gyfoedion a llenyddiaeth lwyd (gweler Atodiad 2)
- Argymhellion a chyngor gan wahanol gyrff arbenigol
- Y cyd-destun cyfreithiol, yn cynnwys *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014*, Pennod 12, rhan 7 Cŵn Peryglus.

Trafodwyd y canfyddiadau hyn ag arbenigwr mewn ymddygiad cŵn ar wahân. Trafodwyd y cyd-destun polisi â'r arweinydd polisi yn gyfrifol am les cŵn yn Llywodraeth Cymru.

# 4 Casgliadau

Ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, daeth y panel i'r casgliadau isod:

Casgliadau cyffredinol:

- Mae gan gŵn le pwysig mewn cymdeithas ac maent yn gydymaith gwerthfawr i lawer o deuluoedd ledled Cymru. Mae cŵn yn rhan bwysig, iach o fywyd teuluol i'r rhan fwyaf o deuluoedd o'r fath.
- Er bod marwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn brin, mae eu natur mor drasig fel eu bod yn derbyn sylw eang yn y wasg a'r cyfryngau ac yn cyffwrdd â phobl ar draws y genedl.

Brathiadau neu ymosodiadau difrifol gan gi neu gŵn:

- Mae plant yn wynebu risg penodol o gael eu brathu neu ddioddef ymosodiad difrifol gan gi; yng Nghymru, yr oedran brig derbyn i'r ysbyty ymhlith plant yng Nghymru yw 2 i 4 oed. Mae'r anafiadau i blant sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn anafiadau i'r wyneb a'r pen yn arferol, ac yn galw am ofal arbenigwyr mewn llawfeddygaeth gosmetig a llawfeddygon y genau a'r wyneb. Awgryma ymchwil bod

yr anafiadau hyn yn digwydd yn aml gyda chi cyfarwydd mewn lleoliad cyfarwydd. Gall anafiadau nad ydynt yn achosi marwolaeth yn y plant hyn fod yn dorcalonnus i bawb sy'n ymwneud â'r achos.

- Mae plant hŷn yn fwy tebygol o gael eu brathu ar eu llaw neu eu braich, ac yn fwy tebygol o fod yn yr awyr agored na phlant iau. Yn aml nid yw'r ci yn gi cyfarwydd.
- Mae brathiadau neu ymosodiad difrifol gan gi, sy'n galw am aros yn yr ysbyty, yn fwy mynych ymhlith plant o ardaloedd mwy amddifadus na phlant o ardaloedd llai amddifadus.

Marwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn:

- Mae marwolaethau plant ifanc yn tueddu digwydd â chŵn cyfarwydd, er nad y rhieni sy'n berchen ar y ci bob tro.
- Nodwyd yr isod ymhlith y nifer fechan o farwolaethau yr edrychwyd arnynt:
  - Roedd y plentyn yn blentyn ifanc yn fwyaf cyffredin; roedd rhai yn blant hŷn.
  - Gallai'r plentyn fod dan ofal perthynas (e.e. nain/taid).
  - Roedd y ci yn gi cyfarwydd, er yn aml nid yw'r ci yn eiddo i'r teulu agos.
  - Yn aml nid yw perchennog y ci yn bresennol.
  - Roedd y ci yn medru mynd at y plentyn yn ddioruchwyliaeth (rhai achosion).

Atal brathu ac ymosodiadau:

- Mae llawer o asiantaethau wedi datblygu cyngor am ddiogelwch cŵn mewn teuluoedd a chyda phlant; fodd bynnag, ar hyn o bryd ni ddarperir gwybodaeth yn arferol i un ai rhieni na pherchnogion cŵn yng Nghymru ynghylch sut i osgoi risg i blant (Atodiad 3).
- Nid yw'r brîd yn ragfynegydd risg da; mae ffactorau eraill, yn cynnwys hanes y ci, cymdeithasoli a chyd-destun y digwyddiad, yn bwysig hefyd.
- O gofio natur perthynas teuluoedd â'u cŵn, a bod yr anifeiliaid a oedd yn rhan o'r achosion hyn i gyd yn anifeiliaid cyfarwydd yr oeddynt yn eu hadnabod, mae'r dewisiadau o ran ymyriadau i atal brathu neu ymosodiad gan gi yn gyfyngedig. Roedd tystiolaeth bod darparu gwybodaeth yn cael effaith barhaol ar wybodaeth neu unrhyw effaith ar ymddygiad yng nghyswllt rhyngweithio rhwng plentyn a chi yn ddiffygiol.
- Ni allai'r panel ffurfio unrhyw farn am newidiadau rheoleiddiol neu newidiadau eraill a allai fod wedi effeithio ar y marwolaethau hyn; nid oedd gennym fynediad at wybodaeth ddibynadwy ynghylch

hanes yr anifeiliaid na ffactorau eraill a allai awgrymu y byddai ymyriad yng nghyswllt y cŵn hynny wedi cael unrhyw effaith ar yr achosion hyn. Ni wnaethom archwilio unrhyw faterion perchnogaeth gyfrifol na'r berthynas rhwng lles cŵn a lles plant.

- Roedd bron yr holl daflenni a nodwyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau nad yw babis a phlant ifanc yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda chi.
- Dylai perchnogion cŵn fod yn ymwybodol o'r risg i blant, yn cynnwys pan nad ydynt hwy (perchennog y ci) yn bresennol.
- Dylai perchnogion cŵn hefyd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cymdeithasoli, yn enwedig cymdeithasu â phlant, i'r ci. Bydd gan bob ci ei anghenion ymarfer corff neu hyfforddiant penodol hefyd.

# 5 Cyfleoedd atal

- Daethom i'r casgliad mai'r cyngor pwysicaf i'r cyhoedd yw:

*peidiwch byth â gadael babi neu blentyn ifanc gyda chi heb oruchwyliaeth, hyd yn oed am eiliad, waeth pa mor dda rydych chi'n adnabod y ci.*

- Gellid pwysleisio hyn, a negeseuon eraill, wrth yr holl rieni newydd, mewn modd cytbwys, gan bwysleisio bod hyn yn berthnasol i unrhyw gysylltiad â chŵn, yn cynnwys pan fo'r plentyn dan ofal pobl eraill. Mae'r cyfleoedd i dynnu sylw at y negeseuon hyn yn cynnwys drwy gysylltiad â'r fydwraig cyn geni, drwy ymwelwyr iechyd yn rhinwedd eu swydd fel eiriolwyr dros ddiogelwch plant mewn cymunedau ac wrth weithio â theuluoedd unigol, cynnwys hyn yn niweddariadau *Naw Mis a Mwy* (*Bump, baby and beyond*) a chofnod iechyd personol y plentyn a gedwir gan y rhiant. Gellid ystyried dulliau eraill o ran gwybodaeth gyhoeddus ynghylch diogelwch y cartref a'r teulu i gyfathrebu'r neges hon i deuluoedd, yn cynnwys cyswllt drwy wasanaethau awdurdodau lleol a Theuluoedd yn Gyntaf.

- Mae cyfleoedd i sicrhau bod perchnogion cŵn yn ymwybodol o'r peryglon i blant, ac yn ymwybodol o'r angen i rannu'r cyngor hwnnw ag eraill a allai fod yn gofalu am y ci pan nad yw'r perchennog yn bresennol. Gellid atgyfnerthu negeseuon o'r fath drwy fridwyr, milfeddygon ac eraill.

### Gwaith arall y gellid ei ystyried

- Gallai archwilio epidemiolegol manylach i'r data sydd ar gael ynghylch derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau oherwydd brathu gan gi neu gŵn fod yn werthfawr. Gallai ystyried y rhesymau am gyfraddau uwch mewn ardaloedd daearyddol penodol fod yn fuddiol hefyd.

- Gallai unrhyw ymyriadau a gyflwynir yn dilyn yr adolygiad hwn gynnwys gwerthusiad cynlluniedig, er enghraifft, yng nghyswllt dealltwriaeth rhieni o'r perygl neu dderbyniadau plant i'r ysbyty.

- Byddai rhagor o ymchwil i effeithiolrwydd ymyriadau i leihau'r risg o anafiadau difrifol i fabanod, plant ifanc a phlant hŷn oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn fuddiol.

# Cyfeiriadau

*Anti-social Behaviour Crime and Policing Act 2014*. Pennod 12. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/12/enacted [Cyrchwyd: 18 Awst 2014]

Jones SJ, Heatman B, Humphreys C. (2013). *Thematic Review of Deaths of Teenagers aged 13-17 years in motor vehicles between 2006-2010.* Abertawe: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

John A et al. (2014). *Thematic Review of Deaths of Children and Young People Through Probable Suicide, 2006-2012.* Abertawe: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals. (2011). *Fatal dog attacks to children.* [Ar-lein]. RSPCA. Ar gael yn: http://content.www.rspca.org.uk/cmsprd/Satellite?blobcol=urldata&blobheader=application%2Fpdf&blobkey=id&blobnocache=false&blobtable=MungoBlobs&blobwhere=1233002968994&ssbinary=true [Cyrchwyd: 18 Awst 2014]


# Atodiad 1 Derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yng Nghymru

Mae'r dadansoddiad hwn yn disgrifio niferoedd y derbyniadau i ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn (cyfnod yn yr ysbyty ag unrhyw gyfeiriad at ICD 10 W54), lle bo'r plentyn wedi ei dderbyn i'r ysbyty yng Nghymru neu'n byw yng Nghymru yn arferol.

Roedd cyfartaledd o 114 achos o dderbyn plant (<18 oed) i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn y flwyddyn yng Nghymru rhwng 2003/4 a 2012/13. Roedd ychydig dros hanner y rhain (52%) ymhlith bechgyn a'r oedran brig ar gyfer derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gi oedd rhwng un a phedair oed.

Mae awgrym o wahaniaeth mewn patrwm rhyw ar draws y grwpiau oedran, yn cynnwys bod bechgyn yn ymddangos yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gi na merched yn y blynyddoedd glaslencyndod cynnar (Ffigur 1). Mae'r patrwm hwn yn wahanol i'r hyn a welir ar gyfer y nifer gymharol fach o farwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn a ddigwyddodd yn bennaf yn ystod babandod.

Ffigur 1 Nifer cyfartalog y derbyniadau i ysbyty ymhlith plant oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn, Cymru, 2003/4-2012/13





Data gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

Mae graddiant serth yng nghyfradd derbyn plant i'r ysbyty yn ôl amddifadedd, ar sail ardal breswylio. Mae'r cyfraddau derbyn i'r ysbyty

oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn fwy na theirgwaith yn uwch ymhlith plant o'r ardaloedd mwyaf amddifadus o'i gymharu â'r rhai o'r ardaloedd lleiaf amddifadus (Ffigur 2).

Ffigur 2 Cyfradd derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn am bob 100,000 o blant <18 yn ôl pumedau amddifadedd, Cymru, 2003/4-2012/13*


Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) ac Amcangyfrifon Ganol Blwyddyn (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)




* Blwyddyn ariannol derbyn i'r ysbyty; + lle bo ardal gynnyrch ehangach haen is preswylio yn hysbys

Bu awgrym o dueddiad ar i fyny yn niferoedd y plant a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn ystod y ddegawd ddiwethaf, gyda hyn yn cyrraedd y brig yn 2012/13 (Ffigur 3). Bu peth newidiadau i faint y poblogaethau hyn. Byddai cyfraddau ar sail poblogaeth a phrawf ystadegol a oedd tueddiad yn ddefnyddiol i ddeall y cyfraddau hyn ymhellach.

Ffigur 3 Niferoedd y derbyniadau i ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn, plant <18 oed, Cymru, 2003/4-2012/13





Data gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru)

Mae amrywiaeth ddaearyddol sylweddol yng nghyfraddau derbyn plant i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru (Ffigur 4). Mae gan ardaloedd Abertawe a Chastellnedd Port Talbot gyfraddau derbyniadau uwch sy'n ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

Ffigur 4 Cyfradd derbyniadau i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn am bob 100,000 o blant <18 oed yn ôl yr awdurdod lleol lle meant yn byw, Cymru, 2003/4-2012/13

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) ac Amcangyfrifon Ganol Blwyddyn (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)




*Blwyddyn ariannol derbyn i'r ysbyty; + lle bo'r awdurdod lleol y maent yn byw ynddo yn hysbys

Mae deunydd a gyhoeddwyd yn Lloegr (HSCIC, 2014) wedi disgrifio cyfraddau derbyn i'r ysbyty uwch ymhlith y grŵp oedran ieuengaf, amrywiaeth rhanbarthol sylweddol a chysylltiad ag amddifadedd, ag anafiadau yn ôl patrymau oedran derbyniadau i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn. Yn ychwanegol roedd hyn yn tynnu sylw bod y rhan fwyaf o dderbyniadau ymhlith y grŵp ieuengaf a ddadansoddwyd (0-9 oed) oherwydd anaf agored ar y pen; gyda'r grŵp oedran nesaf (10-29 oed) yn fwy tebygol o fod yn anafiadau i'r traed neu'r dwylo. Llawfeddygaeth gosmetig a llawfeddygaeth y genau a'r wyneb oedd yr arbenigrwyddau mwyaf cyffredin ar gyfer y digwyddiadau hyn.

## Cyfeiriadau

Health and Social Care Information Centre. (2014). *Provisional monthly HES for admitted patient care, outpatient and accident and emergency data - April 2013-Juanuary 2014: Topic of interest animal bites.* [Ar-lein]. HSCIC. Ar gael yn: http://www.hscic.gov.uk/catalogue/PUB11550/prov-mont-hes-admi-outp-ae-apr-may-13-14-toi-rep.pdf [Cyrchwyd: 19 Awst 2014]

# Atodiad 2 Tystiolaeth o lenyddiaeth gyhoeddedig

## Chwiliad llenyddiaeth

Cynhaliwyd chwiliad llenyddiaeth gan Wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cwestiwn: Pa fesurau neu gyngor a argymhellwyd ar gyfer atal anafiadau neu farwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn ymhlith plant, yn enwedig ar yr aelwyd, gan ddefnyddio'r fframwaith isod:

| | **Poblogaeth/ Problem/ Claf** | **Ymyriad** | **Cymhariaeth / Rheolaeth** | **Deilliannau/Effeithiau** |
|---|---|---|---|---|
| **O'r cwestiwn ymchwil** | Brathu gan gŵn<br><br>Plentyn 0-18 oed | Ymyriadau addysgol<br>Rheoli bridiau cŵn<br>Deddfwriaeth gan y llywodraeth | | Lleihad yn nifer yr anafiadau a marwolaethau yn gysylltiedig â brathu gan gi |
| **Cyfystyron** | Ci wedi brathu *<br>Ymosodiad gan gi | | | |
| **Termau MeSH/ Thesawrws** | Cŵn<br><br>Plentyn<br>Person ifanc | Brathiadau a phigiadau/pc<br>Clwyfau ac anafiadau/pc | | |

Cynhwyswyd llenyddiaeth o 2008 i Fai 2014 lle'r oedd yn y Saesneg ac yn berthynol i wledydd datblygiedig.

Chwiliwyd y ffynonellau a ganlyn:

- Cronfeydd data: CINAHL, Cochrane Library, EMBASE, HMIC, Catalog a chronfa wybodaeth y Llyfrgell, Medline, Tystiolaeth GIG, NICE, PsycINFO, cronfa ddata Dogfennau Iechyd Cyhoeddus Cymru, PubMed (erthyglau a gyhoeddwyd yn ddiweddar), Bibliomap (Database of Health Promotion Research), DoPHER (Database of Promoting Health Effectiveness Reviews), Health Evidence Canada.
- Gwefannau: Campbell, CAPIC, CDC, EPPI, llwybrau NICE, pynciau iechyd cyhoeddus NICE, SafetyLit.
- Gwefannau ar bwnc penodol: American Veterinary Medical Association, British Veterinary Association, Blue Dog, Doggonesafe, National Canine Research Council.

Cefnogwyd hyn gan ddefnyddio Google i chwilio a dilyn cyfeiriadau penodol at erthyglau penodol.

Roedd y llenyddiaeth a nodwyd yn syrthio i dri chategori bras: ffactorau risg o ran brathiadau difrifol gan gŵn; effeithiolrwydd ymyriadau; cyngor a datganiadau gan asiantaethau penodol.

**Ffactorau risg brathu difrifol gan gŵn**

Disgrifiwyd y canlynol fel ffactorau risg yn gysylltiedig â brathu gan gŵn, yn enwedig y rhai lle bo angen mynd i'r adran damweiniau a brys neu dderbyn i'r ysbyty (Matthias et al, 2014; Reisner et al, 2011; Shuler et al, 2008). Daw llawer o'r wybodaeth hon o America (ond gweler gwybodaeth o Loegr yn Atodiad 2):

Ffactorau'r plentyn:

- 5-9 oed
- Plant iau yn fwy tebygol o gael anafiadau i'w pen neu eu wyneb, mwy tebygol o fod yn gi cyfarwydd
- Plant hŷn yn fwy tebygol o gael eu hanafu ar eu traed neu eu dwylo, nid yn gi cyfarwydd yn aml
- Dim oedolyn a fyddai wedi medru ymyrryd yn bresennol yn ystod y digwyddiad
- Cofnodwyd cyswllt rhwng incwm is na'r cymedr

Ffactorau'r ci:

- Ci gwryw, organau rhywiol yn parhau'n gyfan (diffyg cysondeb)
- Tynnwyd sylw at fridiau pur a bridiau penodol

Gwnaeth cyfres achos ar sail cyfweliadau â 203 o blant a aeth i adran brys ysbyty yn America wahaniaethu nodweddion ymhlith plant iau (<7 oed) a phlant hŷn (Reisner et al 2011), Tabl 1.

Tabl 1 Nodweddion yn gysylltiedig â brathu gan gi mewn plant yn dod i adran brys ysbyty yn America, fel a ddisgrifiwyd gan Reisner et al, 2011.

| | <7 oed | 7-17 oed |
|---|---|---|
| Ci cyfarwydd | 81% | 63% |
| Clwyf/anaf i'r wyneb/pen | 70% | 33% |
| Rhiant yn bresennol | 84% | 29% |
| Rhyngweithio addfwyn (e.e. cwtsh) | 45% | 24% |
| Ci yn symud | 31% | 50% |

Canfu adolygiad o'r holl farwolaethau plant ar draws America (Patronek, 2014) dros gyfnod o 10 mlynedd (2000-2009) ffactorau lluosog yn cyfuno gyda'i gilydd yn gysylltiedig â marwolaethau. Er bod 62% o'r 256 o farwolaethau ymhlith plant (<15 oed), nid oedd unrhyw ddadansoddiad penodol o'r ffactorau hyn ar gyfer plant. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys:

- Dim perthynas cyfarwydd rhwng y dioddefwr a'r ci.
- Dim unigolyn abl yn bresennol.
- Gallu'r dioddefwr wedi ei gyfaddawdu (e.e. oherwydd ei oedran).
- Ci preswylydd (arunig).
- Ci heb ei ysbaddu.
- Tystiolaeth o gamreoli'r ci.
- Tystiolaeth o gam-drin/esgeulustod gan y perchennog.

**Effeithiolrwydd ymyriadau i leihau brathu gan gŵn**

Nodwyd nifer o astudiaethau a fu'n archwilio ymdrechion i wella gwybodaeth plant oedran ysgol ar gyfer atal anafiadau brathu gan gi. Mae hyn yn cynnwys adolygiad Cochrane (Duperrex et al, 2009) o ddwy astudiaeth, un ymhlith plant 4-6 oed ac un ymhlith plant 7-8 oed. Roedd y ddwy astudiaeth yn dangos gwelliant tymor byr (7 diwrnod/pythefnos) yn eu gwybodaeth a/neu eu hymddygiad. Daeth yr adolygiad i'r casgliad:

Gellir darparu rhaglenni addysgol byr i atal brathu gan gŵn mewn lleoliadau ysgol gydag effaith cadarnhaol tebygol yn y tymor byr ar wybodaeth, agwedd ac ymddygiad plant. Nid yw hyd yr effaith hwn yn hysbys. Ni ellir dod i gasgliad ar y ffordd orau o gynnal rhaglenni o'r fath. Nid yw effeithiolrwydd addysgu pobl ifanc yn eu harddegau i atal brathu gan gŵn

yn wybyddus. Ni ddylai polisïau iechyd cyhoeddus ddibynnu ar addysgu plant a phobl ifanc yn unig fel prif fesur i leihau baich brathu gan gŵn yn y boblogaeth hon.

Mae astudiaethau eraill wedi dangos gwelliant tymor byr mewn gwybodaeth (Dixon, 2013; Shields, 2012; Coleman, 2008). Gwnaeth un o'r rhain (Coleman, 2008) asesu'r wybodaeth y tu hwnt i bythefnos ac yn yr astudiaeth honno nid oes fawr ddim tystiolaeth o gadw'r wybodaeth ddeufis a phedwar mis ar ôl cyflwyno'r wybodaeth.

Aseswyd y rhaglen 'Blue Dog' mewn poblogaeth yn y Deyrnas Unedig (Meints and Keuster, 2009) ac yna drwy ddyluniad ar hap (Schwebel et al, 2012), yn cynnwys asesu effeithiau ar ymddygiad rhieni (Morrongiello et al, 2013). Er bod y newid cychwynnol mewn gwybodaeth yn addawol (Meints and Keuster, 2009), ni wnaeth hyn drosi yn ymddygiad wedi ei addasu mewn lleoliad efelychiadol neu leoliad gwir (Schwebel et al, 2012), nac ymddygiad y rhieni wedi'i addasu (Morrongiello et al, 2013).

Nodwyd dwy astudiaeth a oedd yn ceisio astudio effaith newidiadau rheoleiddiol ar frathu gan gŵn (Raghavan et al, 2013; Vilalbi et al, 2010). Er bod y ddwy astudiaeth yn adrodd am rai ganfyddiadau cadarnhaol nid oeddynt yn cael eu hystyried yn gryf nac yn gyson.

**Datganiadau gan asiantaethau penodol**

Nodwyd ac ystyriwyd y datganiadau isod gan asiantaethau penodol:

American Veterinary Medical Association Task Force on Canine Aggression and Human-Canine Interactions. (2001). A community approach to dog bite prevention. *J Am Vet Med Assoc* 218(1): 1732-1749. Ar gael yn: https://www.avma.org/public/health/documents/dogbite.pdf [Cyrchwyd: 19 Awst 2014]

Australian Veterinary Association Ltd. (2012). *Dangerous dogs – a sensible solution. Policy and model legislative framework*. St Leonard's: The Australian Veterinary Association Ltd. Ar gael yn: http://www.ava.com.au/sites/default/files/AVA_website/pdfs/Dangerous%20dogs%20-%20a%20sensible%20solution%20FINAL.pdf [Cyrchwyd: 19 Awst 2014]

British Veterinary Association. (2014). *Policy statement on dangerous dogs.* British Veterinary Association. Ar gael yn: http://www.bva.co.uk/uploadedFiles/Content/News,_campaigns_and_policies/Policies/Companion_animals/ps_dangerous_dogs.pdf [Cyrchwyd: 19 Awst 2014]

**Cyfeiriadau**

Coleman GJ et al. (2008). An evaluation of a pet ownership education program for school children. *Anthrozoos* 21 (3): 271-84

Dixon CA et al. (2013). An evaluation of a dog bite prevention intervention in the pediatric emergency department. *J Trauma and Acute Care Surg* 75 (4:Suppl 3): 308-12

Duperrex O et al. (2009). Education of children and adolescents for the prevention of dog bite injuries. *Cochrane Database Syst Rev* (2): CD004726. Ar gael yn:
http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1002/14651858.CD004726.pub2/abstract;jsessionid=BD1DC5C2CB592E39A7DE0D278DA09466.f02t02
[Cyrchwyd: 19 Awst 2014)

Matthias J et al. (2014). Cause, setting and ownership analysis of dog bites in Bay County, Florida from 2009 to 2010. *Zoonoses Public Health*; Ebrill 9. doi: 10.1111/zph.12115.

Meints K and Keuster T. (2009). Brief report: Don't kiss a sleeping dog: the first assessment of "the blue dog" bite prevention program. *J Pediatr Psychol* 34 1084-90

Morrongiello BA et al. (2013). Examining parents' behaviors and supervision of their children in the presence of an unfamiliar dog: does The Blue Dog intervention improve parent practices? *Accid Anal Prev* 54: 108-13

Patronek GJ et al. (2013) Co-occurrence of potentially preventable factors in 256 dog bite-related fatalities in the United States (2000-2009). *Am Vet Med Assoc* 243(12): 1726-36.

Raghavan M et al. (2013). Effectiveness of breed-specific legislation in decreasing the incidence of dog-bite injury hospitalisations in people in the Canadian province of Manitoba. *Inj Prev* 19(3): 177-83.

Reisner IR et al. (2011). Behavioural characteristics associated with dog bites to children presenting to an urban trauma centre. *Inj Prev* 17 (5): 348-53

Schwebel DC et al. (2012). The Blue Dog: evaluation of an interactive software program to teach young children how to interact safely with dogs. *J Pediatr Psychol* 37(3): 272-81

Shields WC et al. (2012). Dog bites: an opportunity for parent education in the pediatric emergency department. *Pediatr Emerg Care* 28(10): 966-70

Shuler CM et al. (2008). Canine and human factors related to dog bite injuries. J *Am Vet Med Assoc* 232(4): 542-6

Villalbi JR et al. (2010). Decline in hospitalisations due to dog bite injuries in Catalonia, 1997-2008. An effect of government regulation? *Inj Prev* 16 (6): 408-10

# Atodiad 3 Enghreifftiau o wybodaeth i'r cyhoedd yng nghyswllt diogelwch cŵn a phlant

Mae gan yr Association of Pet Behaviour Counsellors, UK, restr gynhwysfawr o ddolennau cymeradwy i adnoddau am ddiogelwch gyda chŵn i blant gwahanol oedran, rhieni, athrawon a nyrsus milfeddygol. Mae'n cynnwys adnoddau gan y Dogs Trust, y Kennel Club, Blue Dog ac eraill ac mae ar gael yn:
http://www.apbc.org.uk/info/dog_safety_information

Mae gan Blue Cross daflenni penodol ynghylch diogelwch cŵn gyda babis, plant bach a theuluoedd ar gael yn:
http://www.bluecross.org.uk/1958/looking-after-your-dog.html

Mae Bwrdd Diogelu Plant Caerffili wedi cynhyrchu taflen 'Children and Dogs – Safety Advice for Parents Carers and Babysitters.' Ar gael yn:
http://www.caerphilly.gov.uk/cscb/pdfs/Safety%20With%20Dogs%20Leaflet.pdf

Cyrchwyd y cyfan ar 18 Mehefin 2014